**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (148)**
**Dydd Mercher, 29 Mehefin 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1**

**Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Y Cwestiynau

......................................

**Eitem 2**

**Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

Y Cwestiynau

......................................

**Eitem 3**

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

Y Cwestiynau

......................................

**Eitem 4**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar Sony.**

***Gwnaethpwyd y datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar Ganolfan Mileniwm Cymru, a oedd ar yr agenda ar gyfer heddiw, ar ddydd Mawrth 28 Mehefin.***

......................................

## Eitem 5

## Dadl ar Raglen Buddsoddi Cyfalaf y GIG

NDM2505 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 2005/6 i 2007/8, a nodwyd yn Natganiadau Cabinet Ysgrifenedig y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 a 17 Mawrth 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

*(1 + 3)*
*(2, 4 + 5)*
*(6 + 7)*

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu "Croesawu" a rhoi "Nodi" yn ei le

**2. David Melding (Canol De Cymru): Ni ddetholwyd y gwelliant hwn.**

Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn pryderu nad yw'r gofyniad i gyrff iechyd gyflawni arbedion effeithlonrwydd er mwyn ariannu buddsoddiad cyfalaf yn cynnig sicrwydd digonol o ran yr adnoddau fydd ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

**4. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder y gallai diffygion refeniw a chyfyngiadau cyllidebol rwystro adnoddau cyfalaf rhag cael eu defnyddio'n llawn.

**5. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio Llywodraeth y Cynulliad am fethu â chynyddu capasiti'r GIG i ddiwallu'r galw cynyddol.

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi achos gwerth am arian ar gyfer pob prosiect cyfalaf i sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus mewn modd tryloyw.

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder parthed y goblygiad yn natganiadau'r Gweinidog y gallai'r prosiectau buddsoddi cyfalaf priodol wynebu oedi yn sgîl diffyg ariannu refeniw digonol gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad.

......................................

**Dadl Fer - NDM2488 Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Gweithio dros Gymru Hyderus.

......................................

## Eitem 6

**Dadl Fer - NDM2506 Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Tetra – yr achos dros reolaeth.

......................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**